
PWYLLGOR IAITH, 28.06.12

Yn bresennol: Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Gweno Glyn (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Eric M.Jones, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Eirwyn Williams, Elfed Williams a Gruffydd Williams.

Swyddogion: Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Sylwedydd: Lora Gwawr Williams, Swyddog Cyngor a Chefnogaeth, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Dyfrig Jones a Mandy Williams-Davies; Dewi Jones (Pennaeth Addysg) ac Ifan Prys (Swyddog Datblygu Iaith).

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Liz Saville Roberts yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2012/13.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gweno Glyn yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2012/13.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r Is-Bwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 6 Mawrth ac 17 Ebrill, 2012 fel rhai cywir.

Mater yn codi o gofnodion cyfarfod 6 Mawrth, 2012

Eitem 5 – Cwynion Iaith

(B) – Cwynion yn erbyn cyrff eraill

Paragraff (ii)

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith y derbyniwyd ymateb yn datgan bod y ffurf "WC", fel arwydd toiledau, yn un safonol Ewropeaidd wedi'i dderbyn gan Gonfensiwn Vienna ac mae'n debyg mai'r ffordd ymlaen gyda'r mater hwn bellach fyddai i'w gyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd.

Yna, cyn cychwyn trafod yr eitemau unigol, esboniodd y Swyddog Priodoldeb fod y Pwyllgor Iaith newydd hwn yn atebol i'r Cyngor llawn a bod ganddo hawliau gweithredol o fewn y maes gwaith a bennwyd ar ei gyfer. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod sicrhau'r berthynas a'r cyswllt gyda Hunaniaith yn rhan bwysig o raglen waith y pwyllgor hwn.

5. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law yn erbyn y Cyngor, cwynion yn ymwneud â chyrrff eraill ac amrywiol faterion eraill perthnasol.

Gan gyfeirio'n benodol at y gŵyn fod Cynllun Seiclo'r Cyngor yn cynnwys linc at wefan uniaith Saesneg, nododd y swyddog ymhellach ei bod yn ymddangos nad oedd yr ymateb yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa a darllenodd sylwadau'r Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gyfundrefn oedd yn nodi fel a ganlyn:-

- *Nid Cynllun Beicio'r Cyngor ydi hwn ond Sialens sy'n cael ei rhedeg gan y Cycle Touring Club (CTC) – mae'r Cyngor yn un o'r partneriaid sydd wedi cyllido'r Sialens.*
- *Nid safle we o dan berchnogaeth y Cyngor ydi'r safle.*
- *Anfonwyd y linc allan yn gynamserol pan nad oedd y safle 100% yn Gymraeg a chamgymeriad gan swyddog oedd hyn.*
- *Ni lanswyd y sialens yn swyddogol i staff y Cyngor nes bod y safle'n 100% ddwyieithog.*
- *Mae'r Cyngor wedi gwneud ymdrech fawr i sicrhau bod y CTC yn hysbysebu a gweithredu'r Sialens hon yn ddwyieithog.*

Gofynnwyd i'r swyddogion ddefnyddio'r term “beicio” yn hytrach na “seiclo” i ddisgrifio'r cynllun hwn.

Yna, gan gyfeirio at y materion eraill o bryder yn rhan 3 o'r adroddiad, eglurodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith fod ymholiad Menter Iaith Dyffryn Ogwen yn ymwneud â siop Tesco ym Methesda a'u bod wedi gofyn am gefnogaeth y Cyngor i'w cais i Tesco ystyried gofynion y Gymraeg. 'Roedd Hunaniaith wedi llythyru â Tesco ac 'roedd hithau wedi anfon llythyr hefyd yn amlinellu gofynion Cynllun Iaith y Cyngor ac yn tynnu sylw at ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yng nghymunedau'r sir.

Nododd ymhellach fod ymholiad Cyngor Tref Pwllheli yn ymwneud â siop Costa ym Mhwllheli. 'Roedd wedi bod mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Cynllunio ynglŷn â'r mater hwn ac wedi derbyn datganiad gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio yn nodi:-

“Mae Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Cynllunio Lleol yn ceisio annog y defnydd o'r iaith Gymraeg pan dderbynnir ceisiadau am osod arwyddion. Er hyn, anodd iawn yw gofodi arwyddion dwyieithog drwy'r drefn a rheolau cynllunio. Yr ystyriaethau perthnasol wrth ddelio gyda chais am arwydd yw ystyriaeth o'r effaith weledol a'r effaith diogelwch cyhoeddus. Yn ychwanegol at hyn gellir arddangos nifer o wahanol fathau o arwyddion heb fod angen cyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.”

Eglurwyd hefyd bod yna gymal ar bob cam o'r broses yn gofyn i gwmnïau roi ystyriaeth i'r Gymraeg, ond yn achos Costa, byddai unrhyw reolaeth o'r sefyllfa wedi'i gyfyngu i'r arwyddion hynny a osodid y tu allan i'r adeilad.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai ychydig o bwerau oedd gan y Cyngor ar hyn o bryd yn y maes cynllunio o safbwynt mynnu bod arwyddion dwyieithog yn cael eu rhoi ar siopau neu ddatblygiadau sy'n amlwg ar y Stryd Fawr ac 'roedd yn hynod bwysig o safbwynt cadw at naws a chymeriad ieithyddol yr ardal bod y Gymraeg yn weladwy. I'r diben hwn, awgrymodd y dylid dwyn pwysau ar y Llywodraeth i adolygu'r polisïau cynllunio cenedlaethol presennol fel eu bod yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r angen am arwyddion yn y Gymraeg ar ddatblygiadau manwerthu mewn ardaloedd Cymreig eu naws.

Nododd aelod na ddylid cyfyngu hyn i'r ardaloedd Cymreig yn unig ac y dylai bod yna bolisi cyffredin ar draws Cymru.

Yna cyfeiriodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith at yr angen i drefnu cyfarfod buan gyda chwmni Bysus Padarn gan ofyn am gynrychiolwyr i gyfarfod â'r cwmni.

Ar ddiwedd y drafodaeth ar y cwynion iaith, nodwyd bod yna lawer iawn o anghysondeb rhwng enwau Cymraeg ac enwau Saesneg strydoedd a phentrefi o fewn y sir a galwyd am geisio cysoni'r defnydd o'r enwau Cymraeg fel yr enwau safonol. I'r diben hwn, gofynnwyd am adroddiad i'r cyfarfod nesaf yn gosod y cefndir ac yn nodi ffynonellau'r enwau safonol a'r gofynion o safbwynt enwau strydoedd, tai, ac ati.

Cyfeiriwyd hefyd at agoriad swyddogol Llwybr Arfordir Cymru ac awgrymwyd bod darn o waith i'w wneud yma hefyd er mwyn sicrhau mai enwau lleol a roddir ar y gwahanol rannau o'r llwybr. Awgrymwyd bod cyfle yma hefyd i ddylanwadu ar yr Arolwg Ordnans i ddefnyddio enwau Cymraeg ar drwynau ac ynysoedd arfordirol.

PENDERFYNWYD

- (a) Bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r swyddogion perthnasol, yn cyfarfod rheolwr Cwmni Bysus Padarn.**
- (b) Gofyn i'r Cadeirydd anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn pwysu am adolygu'r polisïau cynllunio cenedlaethol presennol fel eu bod yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r angen i gael arwyddion yn y Gymraeg ar ddatblygiadau manwerthu.**
- (c) Cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf yn gosod y cefndir ac yn nodi ffynonellau'r enwau safonol a'r gofynion o safbwynt enwau strydoedd, tai, ac ati.**
- (ch) Y dylid cyflawni darn o waith er mwyn sicrhau mai enwau lleol a roddir ar y gwahanol rannau o Lwybr Arfordir Cymru, gan hefyd geisio dylanwadu ar yr Arolwg Ordnans i ddefnyddio enwau Cymraeg ar drwynau ac ynysoedd arfordirol.**

6. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN IAITH 2011/12

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor ar Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd 2011/12 cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Holwyd a oedd yna fwriad i ddarparu holiadur pellach ar gyfer defnyddwyr y canolfannau hamdden. Cytunodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith i wneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.

Gan gyfeirio at amcan C.5 ar dudalen 4 o'r Cynllun, nododd aelod na chynhelir unrhyw gyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg yn ei ward bellach, ac eithrio cyfarfodydd cynghorau cymuned a llywodraethwyr ysgolion, a bod angen cadw golwg ar hyn. Ategodd y

Cadeirydd y sylw hwn gan ofyn sut y gallai'r aelodau fonitro'r hyn sy'n digwydd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor.

Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith y disgwyliad y byddai'r Safonau iaith newydd yn gosod mwy o bwysau ar y Cyngor i ffurfioli'r math yma o gofnodi yn hytrach na'i fod yn ddibynnol ar dderbyn cwynion.

Gan gyfeirio at drefniadaeth y gwersi iaith ar gyfer staff a'r ffaith y cafwyd cryn anhawster i drefnu dosbarthiadau addas ar gyfer rhai unigolion ym Meirionnydd, holwyd a oedd y sefyllfa wedi unioni erbyn hyn. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith y byddai'n gofyn y cwestiwn i'r Swyddog Datblygu Gweithlu, fel awdur y rhan hwn o'r adroddiad.

Ymhellach i'r sylw hwn, awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol i'r pwyllgor gael cyflwyniad gan y Swyddog Datblygu Gweithlu ar drefniadau'r Cyngor o ran hyfforddi staff, megis pwy sy'n cynnig beth i ddysgwyr ac i'r sawl sy'n awyddus i wella eu sgiliau iaith ysgrifenedig, sut mae hynny'n gweithio ar draws yr ardaloedd ac ydi'r Cyngor yn gweithio gydag eraill hefyd i ddatblygu sgiliau Cymraeg y staff? Yna cyfeiriodd at amcan D.3 o'r cynllun - Sicrhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff. Pwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod y staff yn deall pam fod y modiwl ymwybyddiaeth iaith yn bwysig a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt yn sgil hynny a mynegodd ei dymuniad i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn.

Mewn ymateb, awgrymodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith fod y Cadeirydd a hithau yn cael sgwrs bellach ynglŷn â hyn. Yna nododd fod yr un sefyllfa'n bodoli gyda'r modiwlau cydraddoldeb hefyd. 'Roedd yn ymwybodol bod yr Uned Hyfforddi yn edrych ar gael pecyn gweddol safonol, oedd yn ddigon teg o safbwynt cydraddoldeb, ond gydag iaith, 'roedd y gofynion yma yng Ngwynedd yn fwy penodol ac felly'n fwy heriol. Byddai'r modiwl oedd gan y Cyngor yn y gorffennol wedi bod yn ardderchog i rai cynghorau, ond 'roedd yna bryder nad oedd yn mynd y filltir ychwanegol ac yn esbonio'r gofynion yn llawn i'r staff. Bwriadai gynnal trafodaethau pellach gyda'r Uned Hyfforddi ynglŷn â hyn, ac wrth i'r gwaith ddatblygu, a phan fyddai'n amserol, efallai y byddai'r pwyllgor hwn yn gwerthfawrogi cyflwyniad ar ei gynnwys.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y symudiad cynyddol tuag at ddarparu gwasanaethau ar lefel ranbarthol neu isranbarthol gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y Cynllun Iaith yn ymateb i hynny ac yn ceisio gwarchod safonau iaith a Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd. Awgrymodd fod cyfle, drwy'r Cynllun Iaith, i amlygu bod yna risgiau, ond hefyd i fynnu bod y Cyngor hwn yn ymlynu at ei egwyddorion a'i werthoedd o ran yr iaith Gymraeg mewn unrhyw fath o drafodaeth ynglŷn â darparu gwasanaethau yn rhanbarthol. 'Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn edrych ar gynlluniau iaith pob un cyngor yng Nghymru yn unigol, ond doedd neb yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn rhanbarthol o safbwynt y Gymraeg. I'r diben hwn, awgrymodd y dylid gwahodd y Comisiynydd i gyfarfod â'r pwyllgor hwn fel y gallai ymateb i rai o'r pwyntiau hyn ar lefel genedlaethol.

Yna codwyd cwestiwn o'r llawr ynglŷn â beth sy'n digwydd os nad yw staff yn dod i fyny â'r gofyn arnynt i ddysgu'r Gymraeg. Nododd y Cadeirydd fod yna ddisgwyliad bod yr unigolyn a'r Cyngor, fel cyflogwr, yn ymrwmo i sgilio'r person i'r lefel addas ar gyfer y swydd. 'Roedd yn bwysig bod y trefniadau recriwtio yn gadarn ac 'roedd angen edrych ar sut mae swyddi'n cael eu hysbysebu, pwy sy'n cael eu penodi a sut mae'r bobl hynny'n cael eu datblygu.

Nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith fod yna ofynion iaith ynghlwm â phob swydd ac eglurodd ar ba sail mae'r gwahanol lefelau ieithyddol yn cael eu pennu.

Nododd aelod fod angen trin y Gymraeg fel unrhyw sgil arall wrth asesu ymgeiswyr am swyddi.

Awgrymodd y Cadeirydd fod absenoldeb system gyson i gofnodi sgiliau ieithyddol staff yn fater i'w ddwyn i sylw'r Comisiynydd Iaith gan alw am lunio mesur cenedlaethol cadarn sy'n dal ei dir yn gyfreithiol ac yn galluogi i'r Cyngor hyfforddi pobl yn ôl eu hanghenion.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bu'n flaenoriaeth gan y Cyngor hwn i geisio cefnogi'r economi leol a chyflogi pobl leol, ond 'roedd yna broblemau penodi i swyddi allweddol mewn rhai meysydd penodol, e.e. y Gwasanaethau Cymdeithasol ym Meirionnydd. Gan hynny, 'roedd yn hynod bwysig sicrhau bod yna lwybrau dysgu cywir yn yr ysgolion fel bod Cymry ifanc Cymraeg yn cael eu paratoi ar gyfer y mathau o swyddi y mae'r Cyngor yn ei chael yn anodd penodi iddynt.

Llongyfarchwyd Kathryn Anne Williams, Therapydd Galwedigaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Keira Hendry, Rheolwr ar Ddyletswydd, Darparu a Hamdden ar ennill Gwobr Goffa Dafydd Orwig a Gwobr Croesi'r Bont.

PENDERFYNWYD

- (a) Cymeradwyo'r ddogfen a'i chyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg, yn ddarostyngedig i ychwanegu geiriad i'r perwyl bod yna risgiau ynghlwm â darparu gwasanaethau ar lefel ranbarthol, ond bod y Cyngor hwn yn benderfynol o ymlynu at ei egwyddorion a'i werthoedd o ran yr iaith Gymraeg mewn unrhyw fath o drafodaeth ynglŷn â darparu gwasanaethau yn rhanbarthol.**
- (b) Gwahodd Comisiynydd y Gymraeg i gyfarfod nesaf y pwyllgor fel y gall ymateb i rai o'r pwyntiau sy'n codi ar lefel genedlaethol.**
- (c) Dwyn sylw Comisiynydd y Gymraeg at y ffaith nad oes yna system gyson o ran cofnodi sgiliau ieithyddol staff gan alw am lunio mesur cenedlaethol cadarn.**
- (ch) Gofyn i'r Swyddog Datblygu Gweithlu roi cyflwyniad i'r pwyllgor ar drefniadau'r Cyngor o ran hyfforddi staff yn y Gymraeg.**

7. YMGYNGHORIAD: SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â'R GYMRAEG: BETH YW'CH BARN?

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor ystyried sut y dymunent ymateb i ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg ar Safonau drafft o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sut orau i gydlynu eu hymateb.

Eglurwyd bod yr ymgynghoriad yn rhedeg tan 11 Awst, 2012.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dri mater oedd wedi codi yn y cyfarfod hwn ac a oedd yn berthnasol i'r drafodaeth ar y Safonau newydd, sef pwysigrwydd Cymraeg gweladwy fel rhan o amlygu statws cyfartal y Gymraeg, yr angen am ddull safonol o adnabod sgiliau staff a phwysigrwydd y polisiau cynllunio.

Awgrymwyd sefydlu gweithgor bychan i drafod y ddogfen mewn manylder cyn diwedd Gorffennaf.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod hon yn ddogfen dechnegol iawn a bod rhaid i'r Comisiynydd weithio i sicrhau bod y prif negeseuon o'r ddogfen yn cael eu cyfleu mewn ffordd glir a syml fel bod pawb yn deall beth yw ei goblygiadau. Awgrymodd hefyd, gan

mai trwy gydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn unig y gellid gosod Safonau ar gyrff y Goron, y dylid gwahodd cynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd i'r gweithgor fel y gall egluro sut y gellir dylanwadu ar bolisiau dwyieithog a gwasanaeth cyfrwng Cymraeg y sefydliadau hynny sy'n dod o dan y Goron yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD

- (a) Sefydlu gweithgor yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor a'r Cynghorwyr Craig ab Iago, Tom Ellis ac Alwyn Gruffydd i ystyried a llunio ymateb i'r ymgynghoriad cyn diwedd Gorffennaf.**
- (b) Gwahodd cynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd i'r gweithgor fel y gall roi arweiniad ynglŷn â sut mae dylanwadu ar bolisiau dwyieithog a gwasanaeth cyfrwng Cymraeg y sefydliadau hynny sy'n dod o dan y Goron.**
- (c) Hysbysu gweddill aelodau'r pwyllgor o ddyddiad y gweithgor fel y gallent gyflwyno unrhyw sylwadau sydd ganddynt ar gynnwys y ddogfen mewn da bryd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.40am.